## Gwerthusiad Opsiynau Ysgol Baladeulyn

**Allwedd:** **Glas - manteision** **Coch - anfanteision** **Du – sylwadau**

| **Gwerthusiad Opsiynau Ysgol Baladeulyn** | | | | |
|---|---|---|---|---|
| **Ystyriaethau** | **Dim newid – parhau gyda'r sefyllfa bresennol** | **Ffederaleiddio gydag ysgol gyfagos (Ysgol Talysarn)** | **Ffederaleiddio gydag ysgol arall gan ychwanegu ardal arbenigol ar gyfer plant ag anghenion dysgu ychwanegol yn Ysgol Baladeulyn** | **Cau Ysgol Baladeulyn a chynnig lle i'r dysgwyr mewn ysgol gyfagos (Ysgol Talysarn)** |
| **Niferoedd dysgwyr a llefydd gweigion** | Niferoedd isel yn parhau yn Ysgol Baladeulyn (Niferoedd Ionawr 2026: 6 dysgwr Derbyn i Blwyddyn 6 a 2 ddysgwr Meithrin).<br><br>Nifer llefydd gweigion yn parhau yn uchel (49 o lefydd gweigion (89%) Derbyn i Blwyddyn 6; 54 o lefydd gweigion (87%) Meithrin – Blwyddyn 6).<br><br>Rhagamcanion yr ysgol yn awgrymu y bydd niferoedd yn parhau'n isel dros y blynyddoedd nesaf. | Niferoedd isel yn parhau yn Ysgol Baladeulyn (Niferoedd Ionawr 2026: 6 dysgwr Derbyn i Blwyddyn 6 a 2 ddysgwr Meithrin).<br><br>Nifer llefydd gweigion yn parhau yn uchel (49 o lefydd gweigion (89%) Derbyn i Blwyddyn 6; 54 o lefydd gweigion (87%) Meithrin – Blwyddyn 6).<br><br>Rhagamcanion yr ysgol yn awgrymu y bydd niferoedd yn parhau'n isel dros y blynyddoedd nesaf.<br><br>Nid oes tystiolaeth amlwg y byddai ffederaleiddio yn arwain at gynnydd mewn niferoedd. | Nid oes tystiolaeth amlwg y byddai ffederaleiddio yn arwain at gynnydd mewn niferoedd yr ysgol. Rhagwelir y byddai niferoedd isel yn parhau yn Ysgol Baladeulyn.<br><br>Gan y byddai dysgwyr yr uned ADY yn parhau i gofrestru fel dysgwyr yn eu hysgol wreiddiol, ni ragwelir y byddai cynnwys ardal arbenigol ar safle ysgol yn effeithio ar y niferoedd. O ganlyniad, rhagwelir y byddai niferoedd yn parhau'n isel.<br>(Niferoedd Ionawr 2026: 6 dysgwr Derbyn i Blwyddyn 6 a 2 ddysgwr Meithrin).<br><br>Gan y byddai angen addasu'r adeilad i ddarparu lleoliad ar gyfer yr uned arbenigol, mi fyddai capasiti yr ysgol yn debygol o leihau a felly bydd llai o lefydd gweigion.<br><br>Rhagamcanion yr ysgol yn awgrymu y bydd niferoedd yn parhau'n isel dros y blynyddoedd nesaf. | Mae niferoedd Ysgol Talysarn yn sefydlog gyda 81 o ddysgwyr Derbyn i Blwyddyn 6 ac 17 o ddysgwyr Meithrin ar y gofrestr (Ionawr 2026).<br><br>Cyfradd llai o lefydd gweigion yn y dalgylch. |
| **Maint dosbarthiadau ac amrediad oedran** | Mae 1 ddosbarth yn Ysgol Baladeulyn (Ionawr 2026) gyda 6 dysgwr (Derbyn i Blwyddyn 6) a 2 ddysgwr Meithrin.<br><br>Yn ôl rhagamcanion ni ragwelir cynnydd yn y niferoedd.<br><br>Mae dosbarth Ysgol Baladeulyn felly yn debygol o barhau yn fach gyda amrediad oedran o hyd at 8 blynedd yn y dosbarth. | Mae 1 ddosbarth yn Ysgol Baladeulyn (Ionawr 2026) gyda 6 dysgwr (Derbyn i Blwyddyn 6) a 2 ddysgwr Meithrin.<br>Yn ôl rhagamcanion ni ragwelir cynnydd yn y niferoedd.<br><br>Yn ôl rhagamcanion ni ragwelir cynnydd yn y niferoedd.<br><br>Nid oes tystiolaeth amlwg y byddai ffederaleiddio yn arwain at gynnydd mewn niferoedd. Mae dosbarth Ysgol Baladeulyn felly yn debygol o barhau yn fach gyda amrediad oedran o hyd at 8 blynedd yn y dosbarth. | Mae 1 ddosbarth yn Ysgol Baladeulyn (Medi 2025) gyda 6 dysgwr (Derbyn i Blwyddyn 6) a 2 ddysgwr Meithrin.<br><br>Yn ôl rhagamcanion ni ragwelir cynnydd yn y niferoedd.<br><br>Nid oes tystiolaeth amlwg y byddai lleoli uned ADY ar safle'r ysgol, nac ffederaleiddio yn arwain at gynnydd mewn niferoedd.<br><br>Mae dosbarth Ysgol Baladeulyn felly yn debygol o barhau yn fach gyda amrediad oedran o hyd at 8 blynedd yn y dosbarth. | Dysgwyr i gael eu haddysgu mewn dosbarthiadau o faint mwy addas. Mae dysgwyr Ysgol Talysarn yn cael eu haddysgu mewn dosbarthiadau o faint mwy addas o rhwng 16 a 30 o ddysgwyr ymhob dosbarth (Medi 2025).<br><br>Mae 4 dosbarth gydag oedrannau cymysg yn Ysgol Talysarn, ynghyd a dosbarth Meithrin. |
| **Adnoddau Ariannol** | Bydd Ysgol Baladeulyn yn derbyn dyraniad gwarchodaeth lleiafswm staffio o £74,446 gan yr Awdurdod yn 2026-27 i sicrhau lefelau staffio priodol.<br><br>Mae rhagolygon niferoedd yn awgrymu y bydd yr angen am ddyraniad gwarchodaeth sylweddol yn parhau. | Bydd Ysgol Baladeulyn yn derbyn dyraniad gwarchodaeth lleiafswm staffio o £74,446 gan yr Awdurdod yn 2026-27 i sicrhau lefelau staffio priodol.<br><br>Mae rhagolygon niferoedd yn awgrymu y bydd yr angen am ddyraniad gwarchodaeth sylweddol yn parhau. | Byddai costau cludiant ynghlwm â lleoli Uned ADY yn Ysgol Baladeulyn.<br><br>Rhagwelir cost cyfalaf sylweddol i addasu'r adeilad. Byddai angen ffynhonnell ariannol (refeniw) ychwanegol i ariannu'r Uned ADY. | Tynnu ysgol o'r rhwyd gwarchodaeth lleiafswm staffio a dim angen am ddyraniad gwarchodaeth yn yr ysgol amgen.<br><br>Bydd cost fesul dysgwr yn agosach at y cyfartaledd sirol.<br><br>Mae'n debygol o arwain at gynnydd yng nghostau cludiant i'r Awdurdod. |

| | | | | |
|---|---|---|---|---|
| | Bydd cyfartaledd cost y dysgwr yn parhau'n uchel (£25,123 y dysgwr) - sylweddol uwch na'r cyfartaledd sirol o £5,998. | Bydd cyfartaledd cost y dysgwr yn parhau'n uchel (£25,123 y dysgwr) - sylweddol uwch na'r cyfartaledd sirol o £5,998.<br>Cyfle i wneud arbedion drwy rannu adnoddau a chyflogi staff ar draws y ffederasiwn wrth benodi yn y dyfodol. | Bydd Ysgol Baladeulyn yn derbyn dyraniad gwarchodaeth lleiafswm staffio o £74,446 gan yr Awdurdod yn 2026-27 i sicrhau lefelau staffio priodol.<br><br>Bydd cyfartaledd cost y dysgwr yn parhau'n uchel (£25,123 y dysgwr) - sylweddol uwch na'r cyfartaledd sirol o £5,998.<br><br>Mae rhagolygon niferoedd yn awgrymu y bydd yr angen am ddyraniad gwarchodaeth sylweddol yn parhau. Ni ragwelir y byddai lleoli uned ADY ar safle'r ysgol na ffederaleiddio yn ymateb i'r her ariannol yma. | |
| **Arweinyddiaeth a Staffio** | Swyddi presennol Ysgol Baladeulyn yn parhau.<br><br>Mae'r ysgol wedi derbyn dyraniad llai ar gyfer 2025/26 gan fod niferoedd Medi 2024 yn îs na 15 dysgwr llawn amser. Mae hyn hefyd yn berthnasol ar gyfer 2026/27, gan fod niferoedd dysgwyr ym Medi 2025 hefyd yn is na 15 dysgwr llawn amser. Mae'r dyraniad i sicrhau gallu cyflogi pennaeth a chymhorthydd.<br><br>Yn sgil strwythur staffio'r ysgol mae'r Pennaeth yn gorfod dysgu mwyafrif o'r amser.<br><br>Mae rhagolygon niferoedd yn awgrymu y bydd hyn yn parhau. | Cyfle i rannu arferion da rhwng y ddwy ysgol a phosibiliadau o wneud gwell defnydd o adnoddau.<br><br>Mae'r ysgol wedi derbyn dyraniad llai ar gyfer 2025/26 gan fod niferoedd Medi 2024 yn îs na 15 dysgwr llawn amser. Mae hyn hefyd yn berthnasol ar gyfer 2026/27, gan fod niferoedd dysgwyr ym Medi 2025 hefyd yn is na 15 dysgwr llawn amser. Mae'r dyraniad i sicrhau gallu cyflogi pennaeth a chymhorthydd.<br><br>Yn sgil strwythur staffio'r ysgol mae'r Pennaeth yn gorfod dysgu mwyafrif o'r amser.<br><br>Mae rhagolygon niferoedd yn awgrymu y bydd hyn yn parhau. | Cyfle i rannu arferion da rhwng y ddwy ysgol a phosibiliadau o wneud gwell defnydd o adnoddau.<br><br>Mae'r ysgol wedi derbyn dyraniad llai ar gyfer 2025/26 gan fod niferoedd Medi 2024 yn îs na 15 dysgwr llawn amser. Mae hyn hefyd yn berthnasol ar gyfer 2026/27, gan fod niferoedd dysgwyr ym Medi 2025 hefyd yn is na 15 dysgwr llawn amser. Mae'r dyraniad i sicrhau gallu cyflogi pennaeth a chymhorthydd.<br><br>Yn sgil strwythur staffio'r ysgol, mae'r Pennaeth yn gorfod dysgu mwyafrif o'i amser.<br><br>Mae rhagolygon niferoedd yn awgrymu y bydd hyn yn parhau.<br><br>Cyfrifoldeb ychwanegol ar y pennaeth, gan y byddai'n gyfrifol am reolaeth safle'r uned. | Mae strwythur staffio Ysgol Talysarn yn sicrhau athrawon ym mhob dosbarth ac yn caniatáu amser digyswllt i'r Pennaeth.<br><br>Byddai'n arwain at ddiswyddo staff yn Ysgol Baladeulyn. |
| **Ffactorau Daearyddol** | Dim newid.<br><br>Ysgol o fewn pellter rhesymol i gartrefi dysgwyr y dalgylch. | Dim newid.<br><br>Ysgol o fewn pellter rhesymol i gartrefi dysgwyr y dalgylch. | Dim newid i ddysgwyr Ysgol Baladeulyn.<br><br>Ysgol o fewn pellter rhesymol i gartrefi dysgwyr y dalgylch<br><br>Bydd angen trefnu cludiant i ddysgwyr yr Uned ADY. | Bydd angen cynnig cludiant i ddysgwr dalgylch Ysgol Baladeulyn.<br><br>Bydd rhai dysgwyr yn teithio ymhellach i'r ysgol nac y maent yn bresennol.<br><br>Ni fydd unrhyw ddysgwr dalgylch Baladeulyn angen teithio pellter afresymol i'r ysgol. |
| **Y Gymuned** | Cadw ysgol a'i photensial i fod yn adnodd cymunedol ym mhentref Nantlle.<br><br>Mwyafrif o ddysgwyr dalgylch Ysgol Baladeulyn eisoes yn mynychu ysgolion all-dalgylch.<br><br>Ansicrwydd yn parhau ynglŷn a chynaladwyedd darpariaeth addysg yn Ysgol Baladeulyn. | Posibilrwydd o gydweithio cymunedol rhwng y 2 ysgol.<br><br>Cadw'r ysgol a'i photensial i fod yn adnodd cymunedol ym mhentref Nantlle.<br><br>Mwyafrif o ddysgwyr dalgylch Ysgol Baladeulyn eisoes yn mynychu ysgolion all-dalgylch.<br><br>Ansicrwydd yn parhau ynglŷn a chynaladwyedd darpariaeth addysg yn Ysgol Baladeulyn. | Cadw ysgol a'i photensial i fod yn adnodd cymunedol ym mhentref Nantlle.<br><br>Mwyafrif o ddysgwyr dalgylch Ysgol Baladeulyn eisoes yn mynychu ysgolion all-dalgylch.<br><br>Posibilrwydd o gydweithio cymunedol rhwng y ddwy ysgol.<br><br>Ansicrwydd yn parhau ynglŷn a chynaladwyedd darpariaeth addysg yn Ysgol Baladeulyn. | Pentref Nantlle yn colli ysgol.<br><br>Cymuned ehangach ble gall y plant a'r rhieni elwa ar greu cysylltiadau cryfach rhwng dwy gymuned cyfagos. |
| **Yr Iaith Gymraeg** | Dim newid - Dysgwyr yn parhau i dderbyn addysg cyfrwng Cymraeg. | Dim newid – Dysgwyr yn parhau i dderbyn addysg cyfrwng Cymraeg. | Dim newid – mae'r 2 ysgol yn ysgolion cyfrwng Cymraeg. | Dim newid – mae Ysgol Talysarn yn ysgol cyfrwng Cymraeg. |
| **Sylwadau ychwanegol wedi eu cynnig gan ran-** | **Cryfderau/Cyfleon:**<br>• Iechyd a lles dysgwyr Ysgol Baladeulyn yn parhau i fod yn dda. | **Cryfderau/Cyfleon:**<br>• Iechyd a lles dysgwyr Ysgol Baladeulyn yn parhau i fod yn dda. | **Cryfderau/Cyfleon:**<br>• Iechyd a lles dysgwyr Ysgol Baladeulyn yn parhau i fod yn dda. | **Gwendidau:**<br>• Dysgwyr i gael eu haddysgu mewn dosbarthiadau o faint mwy. |

| | | | | |
|---|---|---|---|---|
| **ddeiliaid yn ystod/dilyn PAY1 a PAY2** | • Dosbarthiadau bychain yn golygu mwy o sylw i ddysgwyr unigol.<br>• Amrediad oedran eang yn y dosbarthiadau yn cynnig cyfle i weithio gyda plant o wahanol oedrannau. | • Dosbarthiadau bychain yn golygu mwy o sylw i ddysgwyr unigol.<br>• Amrediad oedran eang yn y dosbarthiadau yn cynnig cyfle i weithio gyda plant o wahanol oedrannau.<br>• Cyfrannu'n gadarnhaol at les meddyliol ac emosiynol y dysgwyr. | • Dosbarthiadau bychain yn golygu mwy o sylw i ddysgwyr unigol.<br>• Amrediad oedran eang yn y dosbarthiadau yn cynnig cyfle i weithio gyda plant o wahanol oedrannau. | • Colli'r ymagwedd gynhwysol gadarn mae Ysgol Baladeulyn yn ei gynnig i gefnogi iechyd a lles.<br>• Effaith negyddol posib ar les y dysgwyr presennol. |

| Ystyriaethau | Uno ysgolion lleol er mwyn cefnogi a chynnal Ysgol Baladeulyn | Ychwanegu ardal arbenigol ar gyfer plant ag anghenion dysgu ychwanegol yn Ysgol Baladeulyn | Cynnwys uned iaith ar safle Ysgol Baladeulyn |
|---|---|---|---|
| **Niferoedd dysgwyr a llefydd gweigion** | Gyda ond 6 o ddysgwyr Derbyn i Blwyddyn 6, a 2 ddysgwr Meithrin yn mynychu Ysgol Baladeulyn (Ionawr 2026), rhagwelir na fyddai uno gydag ysgolion lleol yn arwain ar gynnydd yn y niferoedd ar safle Ysgol Baladeulyn.<br><br>Gan na ragwelir cynnydd yn y niferoedd, rhagwelir y byddai nifer fawr o lefydd gweigion, sef lle i 49 (89%) o ddysgwyr yn parhau.<br><br>Rhagamcanion yr ysgol yn awgrymu y bydd niferoedd yn parhau'n isel dros y blynyddoedd nesaf. | Gan y byddai dysgwyr yr uned ADY yn parhau i gofrestru fel dysgwyr yn eu hysgol wreiddiol, ni ragwelir y byddai cynnwys ardal arbenigol ar safle ysgol yn effeithio ar y niferoedd. O ganlyniad, rhagwelir y byddai niferoedd yn parhau'n isel.<br><br>(Niferoedd Ionawr 2026: 6 dysgwr Derbyn i Blwyddyn 6 a 2 ddysgwr Meithrin).<br><br>Gan y byddai angen addasu'r adeilad i ddarparu lleoliad ar gyfer uned arbenigol, mi fyddai capasiti yr ysgol yn debygol o leihau a felly bydd llai o lefydd gweigion.<br><br>Rhagamcanion yr ysgol yn awgrymu y bydd niferoedd yn parhau yn isel dros y blynyddoedd nesaf. | Gan y byddai angen addasu'r adeilad er mwyn cynnig lleoliad addas i'r ganolfan iaith ar safle'r ysgol, byddai capasiti'r ysgol yn debygol o leihau a felly bydd llai o lefydd gweigion.<br><br>Gan y byddai dysgwyr y ganolfan iaith yn parhau i gofrestru fel dysgwyr yn eu hysgol wreiddiol, ni ragwelir y byddai cynnwys uned iaith ar safle ysgol yn effeithio ar y niferoedd. O ganlyniad, rhagwelir y byddai niferoedd yn parhau'n isel.<br><br>Rhagamcanion yr ysgol yn awgrymu y bydd niferoedd yn parhau yn isel dros y blynyddoedd nesaf. |
| **Maint dosbarthiadau ac amrediad oedran** | Mae 1 ddosbarth yn Ysgol Baladeulyn (Ionawr 2026) gyda 6 dysgwr (Derbyn i Blwyddyn 6) a 2 ddysgwr Meithrin.<br><br>Gan na ragwelir y byddai'r opsiwn yma'n arwain at gynnydd yn y niferoedd, rhagwelir byddai maint dosbarthiadau ar safle Ysgol Baladeulyn yn parhau'n fach, gydag amrediad oedran eang. | Nid oes tystiolaeth amlwg y byddai lleoli uned ADY ar safle'r ysgol yn arwain at gynnydd mewn niferoedd. Rhagwelir felly y byddai niferoedd dysgwyr yr ysgol yn parhau'n isel.<br><br>Mae dosbarth Ysgol Baladeulyn felly yn debygol o barhau yn fach gyda amrediad oedran o hyd at 8 blynedd yn y dosbarth. | Gan y byddai dysgwyr y ganolfan iaith yn parhau i gofrestru fel dysgwyr yn eu hysgol wreiddiol, ni ragwelir y byddai cynnwys uned iaith ar safle ysgol yn effeithio ar y niferoedd. O ganlyniad, rhagwelir y byddai niferoedd yn parhau'n isel.<br><br>Mae dosbarth Ysgol Baladeulyn felly yn debygol o barhau yn fach gyda amrediad oedran o hyd at 8 blynedd yn y dosbarth. |
| **Adnoddau Ariannol** | Bydd uno ysgolion yn golygu sefydlu un ysgol aml-safle, gydag un dyraniad ar gyfer yr holl safleoedd. Rhagwelir y byddai safle Baladeulyn yn parhau i dderbyn swm ychwanegol i'r dyraniad craidd trwy'r polisi gwarchodaeth lleiafswm staffio gan y byddai niferoedd dysgwyr Ysgol Baladeulyn yn parhau i fod yn isel. | Byddai costau cludiant ynghlwm â lleoli Uned ADY yn Ysgol Baladeulyn.<br><br>Rhagwelir cost cyfalaf sylweddol i addasu'r adeilad.<br><br>Byddai angen ffynhonnell ariannol (refeniw) ychwanegol i ariannu'r Uned ADY.<br><br>Bydd Ysgol Baladeulyn yn derbyn dyraniad gwarchodaeth lleiafswm staffio o £74,446 gan yr Awdurdod ar gyfer 2026-27 i sicrhau lefelau staffio priodol (seiliedig ar niferoedd Medi 2025).<br><br>Bydd cyfartaledd cost y dysgwr Ysgol Baladeulyn yn parhau'n uchel (£25,123 y dysgwr) sylweddol uwch na'r cyfartaledd sirol o £5,998.<br><br>Mae rhagolygon niferoedd yn awgrymu y bydd yr angen am ddyraniad gwarchodaeth sylweddol yn parhau. Ni ragwelir y byddai lleoli uned ADY ar safle'r ysgol yn ymateb i'r her ariannol yma. | Byddai costau cludiant ynghlwm â lleoli Uned Iaith yn Ysgol Baladeulyn.<br><br>Rhagwelir cost cyfalaf sylweddol i addasu'r adeilad.<br><br>Byddai angen ffynhonnell ariannol (refeniw) ychwanegol i ariannu'r uned iaith.<br><br>Bydd Ysgol Baladeulyn yn derbyn dyraniad gwarchodaeth lleiafswm staffio o £74,446 gan yr Awdurdod ar gyfer 2026-27 i sicrhau lefelau staffio priodol (seiliedig ar niferoedd Medi 2025).<br><br>Bydd cyfartaledd cost y dysgwr Ysgol Baladeulyn yn parhau'n uchel (£25,123 y dysgwr) sylweddol uwch na'r cyfartaledd sirol o £5,998.<br><br>Mae rhagolygon niferoedd yn awgrymu y bydd yr angen am ddyraniad gwarchodaeth sylweddol yn parhau. Ni ragwelir y byddai lleoli Uned Iaith ar safle'r ysgol yn ymateb i'r her ariannol yma. |
| **Arweinyddiaeth a Staffio** | Byddai yna resymoli arweinyddiaeth yn yr opsiwn yma, ond gan na fydd yna effaith ar niferoedd dysgwyr y safleoedd, byddai strwythur staffio | Swyddi presennol Ysgol Baladeulyn yn parhau. | Swyddi presennol Ysgol Baladeulyn yn parhau. |

| | | | |
|---|---|---|---|
| | presennol Ysgol Baladeulyn yn parhau, gyda pennaeth safle (yn hytrach na phennaeth) a chymhorthydd. | Mae'r ysgol wedi derbyn dyraniad llai ar gyfer 2025/26 gan fod niferoedd Medi 2024 yn îs na 15 dysgwr llawn amser. Bydd hyn hefyd yn berthnasol ar gyfer 2026/27, gan fod niferoedd dysgwyr ym Medi 2025 hefyd yn is na 15 dysgwr llawn amser. Mae'r dyraniad i sicrhau gallu cyflogi pennaeth a chymhorthydd.<br><br>Mae rhagolygon niferoedd yn awgrymu y bydd hyn yn parhau.<br><br>Yn sgil strwythur staffio'r ysgol, mae'r Pennaeth yn gorfod dysgu mwyafrif o'r amser.<br><br>Cyfrifoldeb ychwanegol ar y pennaeth, gan y byddai'n gyfrifol am reolaeth safle'r uned. | Mae'r ysgol wedi derbyn dyraniad llai ar gyfer 2025/26 gan fod niferoedd Medi 2024 yn îs na 15 dysgwr llawn amser. Bydd hyn hefyd yn berthnasol ar gyfer 2026/27, gan fod niferoedd dysgwyr ym Medi 2025 hefyd yn is na 15 dysgwr llawn amser. Mae'r dyraniad i sicrhau gallu cyflogi pennaeth a chymhorthydd.<br><br>Mae'r rhagolygon niferoedd yn awgrymu y bydd hyn yn parhau.<br><br>Yn sgil strwythur staffio'r ysgol, mae'r Pennaeth yn gorfod dysgu mwyafrif o'r amser.<br><br>Cyfrifoldeb ychwanegol ar y pennaeth, gan y byddai'n gyfrifol am reolaeth safle'r uned. |
| **Ffactorau Daearyddol** | Safle ysgol o fewn pellter rhesymol i gartrefi dysgwyr y dalgylch.<br><br>Yn ddibynnol ar strwythur yr ysgol newydd mae posibilrwydd y bydd angen trefnu cludiant rhwng safleoedd ysgolion. | Dim newid i ddysgwyr Ysgol Baladeulyn.<br><br>Ysgol o fewn pellter rhesymol i gartrefi dysgwyr y dalgylch.<br><br>Bydd angen trefnu cludiant i ddysgwyr yr Uned ADY. | Dim newid i ddysgwyr Ysgol Baladeulyn.<br><br>Ysgol o fewn pellter rhesymol i gartrefi dysgwyr y dalgylch.<br><br>Bydd angen trefnu cludiant i ddysgwyr yr Uned Iaith. |
| **Y Gymuned** | Cadw safle ysgol a'i photensial i fod yn adnodd cymunedol ym mhentref Nantlle.<br><br>Cymuned ehangach ble gall y dysgwyr a'r rhieni elwa ar greu cysylltiadau cryfach rhwng cymuned Dyffryn Nantlle.<br><br>Ansicrwydd yn parhau ynglŷn a chynaladwyedd darpariaeth addysg ar safle Ysgol Baladeulyn. | Cadw ysgol a'i photensial i fod yn adnodd cymunedol yn Nantlle.<br><br>Mwyafrif o ddysgwyr dalgylch Ysgol Baladeulyn eisoes yn mynychu ysgolion all-dalgylch.<br><br>Ansicrwydd yn parhau ynglŷn a chynaladwyedd darpariaeth addysg yn Ysgol Baladeulyn. | Cadw ysgol a'i photensial i fod yn adnodd cymunedol yn mhentref Nantlle.<br><br>Mwyafrif o ddysgwyr dalgylch Ysgol Baladeulyn eisoes yn mynychu ysgolion all-dalgylch.<br><br>Ansicrwydd yn parhau ynglŷn a chynaladwyedd darpariaeth addysg yn Ysgol Baladeulyn. |
| **Yr Iaith Gymraeg** | Dim newid - dysgwyr yn parhau i dderbyn addysg cyfrwng Cymraeg. | Dim newid - dysgwyr yn parhau i dderbyn addysg cyfrwng Cymraeg. | Dim newid – dysgwyr yn parhau i dderbyn addysg cyfrwng Cymraeg. |
| **Sylwadau ychwanegol wedi eu cynnig gan ran-ddeiliaid yn ystod/dilyn PAY1 a PAY2** | **Cryfderau/Cyfleon:**<br>• Iechyd a lles dysgwyr Ysgol Baladeulyn yn parhau i fod yn dda.<br>• Dosbarthiadau bychain yn golygu mwy o sylw i ddysgwyr unigol.<br>• Amrediad oedran eang yn y dosbarthiadau yn cynnig cyfle i weithio gyda plant o wahanol oedrannau.<br>• Cyfle i sefydlogi niferoedd dysgwyr, cynyddu cyllid, a lleihau costau gweithredu.<br>• Ysgol Baladeulyn yn parhau i ddarparu addysg cyfrwng Cymraeg o ansawdd uchel i bob myfyriwr.<br>• Creu sefydliad cyfunol a all weithredu'n fwy effeithlon - cyfuno adnoddau'r ysgolion, megis staff, cyfleusterau a deunyddiau addysgu, gan gynnal y ffocws ar gyfrwng y Gymraeg.<br>• Caniatáu cydgrynhoi swyddogaethau gweinyddol, megis rolau arweinyddiaeth, cyllid, AD a gwasanaethau TG, gan leihau costau gorbenion.<br>• Byddai'r ysgol gyfunol yn elwa o arbedion maint.<br>• Cyfle i rannu adnoddau megis staff, deunyddiau addysgol, cyfleusterau chwaraeon a rhaglenni allgyrsiol.<br>• Cyfle i Ysgol Baladeulyn ehangu ei chwricwlwm a'i gweithgareddau allgyrsiol.<br>• Cyfle i ddatblygu rhaglenni a chefnogaeth arbenigol i fyfyrwyr ag anghenion dysgu ychwanegol, gan sicrhau bod pob plentyn yn cael ei gynnwys yn y profiad addysgol.<br>• Cyfle i ddenu mwy o gyllideb gan Llywodraeth Cymru a'r Awdurdod Lleol – gall arwain at incwm mwy sefydlog, a chaniatáu i'r ysgol gynllunio'n well ar gyfer anghenion y dyfodol.<br>• Cyfle i helpu i leihau dyblygu gwasanaethau, e.e. gallai arwain at un tîm arweinyddiaeth a lleihau nifer y staff nad ydynt yn addysgu, gan arwain at leihad yng nghost y dysgwr.<br>• Cyfle i wasanaethau a rennir e.e. Cludiant a chynnal a chadw fod yn fwy cost effeithiol yn sgil eu canoli. | **Cryfderau/Cyfleon:**<br>• Iechyd a lles dysgwyr Ysgol Baladeulyn yn parhau i fod yn dda.<br>• Dosbarthiadau bychain yn Ysgol Baladeulyn yn golygu mwy o sylw i ddysgwyr unigol.<br>• Amrediad oedran eang yn y dosbarthiadau yn cynnig cyfle i weithio gyda plant o wahanol oedrannau.<br>• Cyfrannu'n gadarnhaol at les meddyliol ac emosiynol y dysgwyr.<br>• Cyd-fynd â'r gydnabyddiaeth gynyddol o bwysigrwydd addysg gynhwysol a chefnogaeth i blant ag anghenion dysgu amrywiol.<br>• Ni fydd angen i deuluoedd deithio pellteroedd hir mwyach am gymorth arbenigol, gan y bydd ganddynt fynediad at ateb lleol, Cymraeg ar gyfer anghenion addysgol arbennig eu plant.<br>• Caniatáu i blant ag ADY dderbyn addysg unigol.<br>• Helpu i feithrin ymdeimlad o gynhwysiant, a sicrhau bod plant ag ADY yn cael eu hintegreiddio i gymuned ehangach yr ysgol.<br>• Sicrhau fod plant ag ADY yn cael mynediad at addysg yn eu hiaith gyntaf, gan gadw eu treftadaeth ddiwylliannol. | **Cryfderau/Cyfleon:**<br>• Iechyd a lles dysgwyr Ysgol Baladeulyn yn parhau i fod yn dda.<br>• Dosbarthiadau bychain yn golygu mwy o sylw i ddysgwyr unigol.<br>• Amrediad oedran eang yn y dosbarthiadau yn cynnig cyfle i weithio gyda plant o wahanol oedrannau. |

| | | | |
|---|---|---|---|
| | • Cyfle i gael mynediad at gyllid ychwanegol o amrywiol grantiau addysgol a diwylliannol, gan gynnwys y rhai sy'n canolbwyntio ar ddiogelu'r iaith Gymraeg, anghenion dysgu ychwanegol, ac addysg wledig.<br>• Arwain at ddyrannu staff addysgu yn fwy effeithlon, dilyniant staff a chyfleoedd ar gyfer hyfforddiant mewn meysydd arbenigol megis ADY, datblygu'r iaith Gymraeg, a thechnoleg.<br>• Cyfle i gynnig addysg cryfach mwy amrywiol, gydag ystod ehangach o weithgareddau allgyrsiol, gwasanaethau cymorth a rhaglenni arbenigol.<br>• Helpu i feithrin ymdeimlad mwy o gymuned.<br>• Gallu i gefnogi plant ag ADY yn well. | | |

**Opsiynau Amgen Rhesymol a awgrymwyd gan Ymgynghorai**

| Ystyriaethau | Ail-gategoreiddio Ysgol Baladeulyn fel ysgol gynradd 'hybrid' prif-ffrwd ac ADY er mwyn cynnig darpariaeth arbenigol i'r ardal leol |
|---|---|
| **Niferoedd dysgwyr a llefydd gweigion** | Nid oes tystiolaeth amlwg ar hyn o bryd y byddai datblygu Ysgol Baladeulyn fel ysgol hybrid sy'n cynnig darpariaeth arbenigol yn arwain at gynnydd digonol a chynaliadwy mewn niferoedd dysgwyr cofrestredig.<br><br>Niferoedd Ionawr 2026: 6 dysgwr Derbyn – Blwyddyn 6 ac 2 dysgwr Meithrin.<br><br>Gan y byddai angen addasu'r adeilad i ddarparu lleoliad ar gyfer uned arbenigol, mi fyddai capasiti yr ysgol yn debygol o leihau a felly bydd llai o lefydd gweigion.<br><br>Rhagamcanion yr ysgol yn awgrymu y bydd niferoedd yn parhau yn isel dros y blynyddoedd nesaf. |
| **Maint dosbarthiadau ac amrediad oedran** | Nid oes tystiolaeth amlwg y byddai lleoli uned ADY ar safle'r ysgol yn arwain at gynnydd mewn niferoedd. Rhagwelir felly y byddai niferoedd dysgwyr yr ysgol yn parhau'n isel.<br><br>Mae dosbarth Ysgol Baladeulyn felly yn debygol o barhau yn fach gyda amrediad oedran o hyd at 8 blynedd yn y dosbarth. |
| **Adnoddau Ariannol** | Byddai costau cludiant ynghlwm â lleoli Uned ADY yn Ysgol Baladeulyn.<br><br>Rhagwelir cost cyfalaf sylweddol i addasu'r adeilad.<br><br>Byddai angen ffynhonnell ariannol (refeniw) ychwanegol i ariannu'r Uned ADY.<br><br>Bydd Ysgol Baladeulyn yn derbyn dyraniad gwarchodaeth lleiafswm staffio o £74,446 gan yr Awdurdod yn 2026-27 i sicrhau lefelau staffio priodol (seiliedig ar niferoedd Medi 2025).<br><br>Bydd cyfartaledd cost y dysgwr yn parhau'n uchel (£25,123 y dysgwr) - sylweddol uwch na'r cyfartaledd sirol o £5,998.<br><br>Mae rhagolygon niferoedd yn awgrymu y bydd yr angen am ddyraniad gwarchodaeth sylweddol yn parhau. Ni ragwelir y byddai'r ddarpariaeth amgen ar safle'r ysgol yn ymateb i'r her ariannol yma. |
| **Arweinyddiaeth a Staffio** | Swyddi presennol Ysgol Baladeulyn yn parhau.<br><br>Mae'r ysgol wedi derbyn dyraniad llai ar gyfer 2025/26 gan fod niferoedd Medi 2024 yn îs na 15 dysgwr llawn amser.<br>Bydd hyn hefyd yn berthnasol ar gyfer 2026/27, gan fod niferoedd dysgwyr ym Medi 2025 hefyd yn is na 15 dysgwr llawn amser. Mae'r dyraniad i sicrhau gallu cyflogi pennaeth a chymhorthydd.<br><br>Mae rhagolygon niferoedd yn awgrymu y bydd hyn yn parhau.<br><br>Yn sgil strwythur staffio'r ysgol, mae'r Pennaeth yn gorfod dysgu mwyafrif o'i amser.<br><br>Cyfrifoldeb ychwanegol ar y pennaeth, gan y byddai'n gyfrifol am reolaeth safle'r ddarpariaeth ADY. |

| | |
|---|---|
| **Ffactorau Daearyddol** | Dim newid i ddysgwyr Ysgol Baladeulyn.<br><br>Ysgol o fewn pellter rhesymol i gartrefi dysgwyr y dalgylch.<br><br>O bosib bydd costau cludiant uwch, er mwyn trefnu cludiant i ddysgwyr ADY. |
| **Y Gymuned** | Cadw ysgol a'i photensial i fod yn adnodd cymunedol yn Nantlle.<br><br>Mwyafrif o ddysgwyr dalgylch Ysgol Baladeulyn eisoes yn mynychu ysgolion all-dalgylch.<br><br>Ansicrwydd yn parhau ynglŷn a chynaladwyedd darpariaeth addysg yn Ysgol Baladeulyn. |
| **Yr Iaith Gymraeg** | Dim newid - dysgwyr yn parhau i dderbyn addysg cyfrwng Cymraeg. |